Llenyddiaeth Cymru yn chwilio am Aelodau newydd i'r Panel Ysgoloriaethau

Mae Llenyddiaeth Cymru yn chwilio am 3 Aelod Panel newydd i ymuno â'r Panel Ysgoloriaethau i asesu ceisiadau Ysgoloriaethau a Chynllun Mentora Llenyddiaeth Cymru a dyfarnu nawdd. Mae Ysgoloriaethau Awduron a'r Cynllun Mentora yn weithgareddau craidd yn rhaglen Datblygu Awduron Llenyddiaeth Cymru; maent yn galluogi egin awduron i achub ar gyfleoedd i fireinio a datblygu sgiliau llenyddol, a datblygu eu potensial creadigol a phroffesiynol. Rydym yn chwilio am bobl sy'n awyddus i gyfrannu at ddatblygu potensial creadigol a phroffesiynol egin awduron yng Nghymru.

Cefnogir Ysgoloriaethau i Awduron a Chynllun Mentora Llenyddiaeth Cymru gan y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru.

Ynglŷn a'r rôl

Aelodau Panel - Nodweddion angenrheidiol

- Trosolwg o'r byd llenyddol yng Nghymru
- Gwybodaeth o'r diwydiant cyhoeddi / ysgrifennu creadigol yng Nghymru – gweler y genres isod
- Arbenigedd mewn ysgrifennu creadigol cyfoes Saesneg yng Nghymru
  A/NEU
- Arbenigedd mewn ysgrifennu creadigol cyfoes Cymraeg
- Y gallu i a phrofiad o ddarllen nifer fawr o deipysgrifau ac ysgrifennu adroddiadau
- Ymagwedd broffesiynol
- Y gallu i ddyfarnu'n feirniadol

Gwybodaeth / Arbenigedd yn o leiaf dau o'r genres isod:

- Barddoniaeth
- Rhyddiaith
- Llenyddiaeth ffeithiol greadigol
- Beirniadaeth lenyddol
- Llenyddiaeth plant
- Ffuglen ar gyfer oedolion ifainc
- Nofelau graffeg

Prif Ddyletswyddau Aelodau'r Panel Ysgoloriaethau

- Asesu ac adrodd ar geisiadau blynyddol ar gyfer Ysgoloriaethau i Awduron a'r Cynllun Mentora.
- Mynychu cyfarfod blynyddol y Panel Ysgoloriaethau. Cynhelir y cyfarfod fis Tachwedd yng Nghaerdydd fel arfer.

Caiff aelodau Panel eu hapwyntio am dymor o dair blynedd i gychwyn; gellir ymestyn y cyfnod am uchafswm o un tymor pellach. Telir ffi o £550 yn flynyddol am y gwaith hwn, yn ogystal â chyfraniad at gostau teithio mynychu'r cyfarfod Panel blynyddol.

Gellir islwytho taflen wybodaeth â rhagor o fanylion o wefan Llenyddiaeth Cymru.

Rydym yn chwilio ar hyn o bryd am unigolion ac arbenigedd penodol yn y meysydd canlynol: Barddoniaeth Gymraeg; llenyddiaeth plant ac oedolion ifainc (Cymraeg a Saesneg); ffuglen a barddoniaeth Saesneg. Rydym yn ymrwymedig i groesawu ymgeiswyr o ystod eang o gefndiroedd, sydd yn cynnwys asesu ceisiadau yn rhannol ar sail potensial.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â Ysgoloriaethau i Awduron cliciwch yma. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r Cynllun Mentora, cliciwch yma.

Mae Cynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru 2019-22 ar gael yma. Rydym yn argymell eich bod yn darllen y Cynllun Strategol cyn anfon eich cais, gan gyfeirio at strategaeth Datblygu Awduron.

Sut i gyflwyno eich cais

Er mwyn ymgeisio am y rôl hon, a wnewch chi anfon:

1. Llythyr cais (dim mwy na 2 dudalen o hyd), yn esbonio paham yr hoffech gael eich ystyried ar gyfer y rôl.
2. Eich CV, yn nodi profiad perthnasol, ynghyd â manylion 2 ganolwr a allai ddarparu geirda.
3. Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'i chwblhau.

A wnewch chi ebostio eich cais at: post@llenyddiaethcymru.org neu anfon drwy'r post at: Llenyddiaeth Cymru, Prif Weithredwr, Lleucu Siencyn, Canolfan Glyn Jones, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau:
12.00 canol dydd, Dydd Gwener 5 Gorffennaf 2019

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'n bosib byddwn am drefnu sgyrsiau anffurfiol gydag ymgeiswyr ar y rhestr fer, er mwyn trafod y cais yn fanwl. Yn yr achosion hyn, bydd y sgyrsiau'n digwydd yn ystod **yr wythnos sy'n dechrau 8 Gorffennaf.** Disgwylir i Aelodau newydd y Panel gychwyn yn y rôl o 1 Medi 2019.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Llenyddiaeth Cymru:
029 2047 2266 / post@llenyddiaethcymru.org / www.llenyddiaethcymru.org

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu llenyddiaeth. Ein gweledigaeth yw Cymru sydd yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth.

Mae **Llenyddiaeth Cymru** yn elusen gofrestredig ac yn gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Am ragor o wybodaeth ewch i www.llenyddiaethcymru.org

Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru